SL(5)338 – Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"); maent yn nodi'r gofynion rheoleiddiol a'r darpariaethau cysylltiedig ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig ac ar gyfer y personau hynny sydd wedi eu dynodi'n "unigolion cyfrifol" ar gyfer y gwasanaethau hynny.

Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Materion technegol: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliad 2(1) yn cynnwys y diffiniad a ganlyn:

> ystyr "a gymeradwywyd gan y gwasanaeth" ("approved by the service") yw wedi ei gymeradwyo gan y gwasanaeth yn addas i fod yn rhiant mabwysiadol yn unol â Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005.

Defnyddir y term "a gymeradwywyd gan y gwasanaeth" mewn sawl lle yn y Rheoliadau, er enghraifft, mae paragraff 30 o Atodlen 3 yn nodi:

> 30. Unrhyw gŵyn ddifrifol ynghylch darpar fabwysiadydd a gymeradwywyd gan y gwasanaeth pan fo plentyn wedi ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd hwnnw gan y gwasanaeth.

Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y gall "y gwasanaeth" gymeradwyo yn y cyd-destun hwn. (Mae hyn hefyd yn codi cwestiwn ynghylch defnyddio "y gwasanaeth" ar ddiwedd y paragraff hwnnw, sydd hefyd yn codi mewn sawl lle arall yn y Rheoliadau.)

Mae methu â hysbysu awdurdod ardal o'r amgylchiadau ym mharagraff 30 o Atodlen 3 yn drosedd. Felly, rydym yn pwysleisio'r angen am eglurder.

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliad 7(4) yn ymdrin â mater "unigolyn cyfrifol" nad yw'n gallu cyflawni ei ddyletswyddau. Yn ôl rheoliad 7(4)(c), lle nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau yn eu lle i'r gwasanaeth gydymffurfio â gofynion **Rhannau 3 i 10** o'r Rheoliadau.

Fodd bynnag, mae Rhannau 11 i 15 o'r Rheoliadau yn gosod gofynion pwysig iawn ar unigolion cyfrifol. Felly, rydym yn meddwl tybed pam nad yw rheoliad 7(4)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau yn eu lle i'r gwasanaeth gydymffurfio â gofynion **Rhannau 3 i 15** o'r Rheoliadau?

(Nodwn y ffaith bod cyfeiriad at Rannau 3 i 15 o'r Rheoliadau hynny yn y man cyfatebol yn Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.)

Mae'r un mater yn codi mewn perthynas â rheoliad 8(3) o'r Rheoliadau hyn.

Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r rheoliadau hyn (Saesneg yn unig) yn nodi:

> Section 27(4) of the Regulation and Inspection of Social Care Act (RISCA) provides that "Before making regulations under this section the Welsh Ministers must—(a) consult any persons they think appropriate, and (b) publish a statement about the consultation." To discharge this requirement, a summary of the responses, together with a list of respondents will be published on the Welsh Government website:
>
> **https://beta.gov.wales/new-regulatory-framework-adoption-services**

Fodd bynnag, nid yw'r wefan honno'n rhoi crynodeb o'r ymatebion ac nid yw'n rhestru'r ymatebwyr. Ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, mae'r wefan yn cynnwys y dogfennau ymgynghori gwreiddiol ac fe'i diweddarwyd ddiwethaf ar 27 Tachwedd 2018, h.y. y diwrnod y daeth yr ymgynghoriad i ben.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Ymateb y Llywodraeth i'r pwyntiau craffu technegol:

Mae elfen craffu technegol yr adroddiad drafft yn cyfeirio at ddau bwynt drafftio sy'n cael eu nodi. Mewn perthynas â'r pwynt cyntaf, mae Rhan 4 o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005") yn nodi'r broses ar gyfer asesu a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr i fod yn rhieni mabwysiadol addas gan asiantaethau mabwysiadu sydd, at ddibenion y Rheoliadau hynny, yn awdurdodau lleol neu'n gymdeithasau mabwysiadu cofrestredig. Mae Rheoliadau 2019 yn gymwys i wasanaethau mabwysiadu o fewn ystyr Deddf 2016 (hynny yw, cymdeithasau mabwysiadu ac asiantaethau cymorth mabwysiadu o fewn ystyr "adoption societies" ac "adoption support agencies" yn Neddf 2002) ond nid i awdurdodau lleol. Mae Rheoliadau 2019 yn diffinio "y gwasanaeth", oni nodir fel arall, fel gwasanaeth mabwysiadu a ddarperir mewn perthynas ag ardal benodedig.

Mae'r ymadrodd "a gymeradwywyd gan y gwasanaeth" yn ei gwneud yn glir na ddefnyddir y gair "gwasanaeth" i olygu "gweithred o ddarparu cymorth" ond i olygu "corff sy'n darparu budd i'r cyhoedd".

Mae'r darpar fabwysiadydd wedi bod yn ddarostyngedig i broses y gwasanaeth mabwysiadu sydd wedi ei nodi yn Rhan 4 o Reoliadau 2005. Nid ydym yn ystyried bod dadl ddilys y gellid dehongli'r ymadrodd "a gymeradwywyd gan y gwasanaeth", yn y cyd-destun y'i defnyddir, mewn unrhyw ffordd arall. Ar y sail honno, ni fwriadwn gyflwyno unrhyw ddiwygiad i'r diffiniad gan ein bod wedi ein bodloni bod yr ystyr yn ddigon clir.

Mewn perthynas â'r ail bwynt, mae rheoliad 7(4) yn darparu i'r darparwr gwasanaeth, yn ystod unrhyw adeg pan nad yw'r unigolyn cyfrifol ("UC") yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gyflawni'r dyletswyddau a nodir yn rheoliad 7(4)(a), (b) a (d). Cyfrifoldebau'r UC yw'r rhain. Mae rheoliad 7(4) hefyd yn creu gofyniad penodol (yn is-baragraff (c)) i'r darparwr gwasanaeth roi yn eu lle gamau i sicrhau bod ei ddyletswyddau ei hun (sef rhai'r darparwr) hefyd yn cael eu cyflawni yn ystod cyfnod o absenoldeb UC. Nid yw rheoliad 8 yn wahanol ond i'r graddau y mae'n gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn. Mewn achos o'r fath, rhaid i'r unigolyn sicrhau bod trefniadau yn eu lle i berson ac eithrio ef ei hun sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gydymffurfio ag (a) i (d) o reoliad 8(3). Rydym wedi ein bodloni bod y drafftio yn ddigon clir ac ni fwriadwn gyflwyno unrhyw ddiwygiad i reoliad 7 neu 8.

Mae elfen craffu ar rinweddau yr adroddiad drafft yn cyfeirio at un pwynt sy'n cael ei nodi.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi datganiad ynghylch yr ymgynghoriad, ynghyd â chrynodeb o ymatebion a rhestr o ymatebwyr o fewn y pythefnos nesaf ac felly cyn i Reoliadau 2019 gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Mawrth, a'u gwneud gan y Gweinidog.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Mawrth 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau technegol a'r pwyntiau rhinweddau uchod